

No.

CYFARFOD BLYNYDDOL CYDBWYLLGOR Y GWASANAETHAU RHEOLIADOL A RENNIR

Cofnodion cyfarfod anghysbell a gynhaliwyd ar 23 Mawrth, 2022

Mae'r Agenda ar gael [yma](#).

Mae recordiad y cyfarfod ar gael [yma](#).

Yn Bresennol:

Yn cynrychioli Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr – Cynghorwyr
Representing Bridgend County Borough Council – Councillors D. Lewis a D. Patel.

Yn cynrychioli Cyngor Dinas a Sir Caerdydd – Cynghorwyr M. Michael (Cadeirydd)
a Mrs. N. Mackie.

Yn cynrychioli Cyngor Bro Morgannwg - Cynghorwyr J.W. Thomas a E. Williams
(Is-gadeirydd).

(a) Cyhoeddiad -

Cyn cychwyn busnes y Pwyllgor, darllenodd y Cadeirydd y datganiad a ganlyn: "A gaf i atgoffa pawb sy'n bresennol y bydd y cyfarfod yn cael ei ffrydio'n fyw yn ogystal â'i recordio trwy'r rhyngwrdd ac mae'r recordiad hwn wedi'i archifo i'w weld yn y dyfodol."

(b) Cofnodion –

PENDERFYNWYD – CYMERADWYO cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 14 Rhagfyr, 2021 fel cofnod cywir.

(c) Datganiadau Buddiant –

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau buddiant.

(d) Trosolwg a Diweddariad ar Wasanaethau Rheoleiddio a Rennir (CAT) -

Cyflwynodd Pennaeth y Gwasanaethau Rheoliadol a Rennir yr adroddiad a roddodd wybod i'r Pwyllgor am waith y Gwasanaeth a'i gynnydd tuag at gwblhau'r camau gweithredu yng Nghynlluniau Busnes y Gwasanaethau Rheoliadol a Rennir (GRhR).

No.

Datblygwyd Cynlluniau Busnes y GRhR mewn ymgynghoriad â rhanddeiliaid; roeddent yn llywio ac yn cyfarwyddo gwaith y gwasanaeth ac yn cyfrannu at flaenoriaethau corfforaethol pob Cyngor partner. Roedd gan y gwasanaeth bum nod allweddol, sef:

- Gwella Iechyd a Lles
- Diogelu'r Bobl Sy'n Agored i Niwed
- Amddiffyn yr Amgylchedd Lleol
- Cefnogi'r Economi Leol
- Manteisio i'r eithaf ar ein hadnoddau

Roedd yr adroddiad yn cynnwys gwybodaeth yn amlinellu sut roedd y gwasanaeth yn gweithio i sicrhau gwell canlyniadau i drigolion a busnesau yn y rhanbarth drwy gyfres o wahanol gamau gweithredu a rhaglenni gwaith. Rhoddodd yr adroddiad drosolwg o'r gweithgareddau a gynhaliwyd rhwng Rhagfyr 2021 a Chwefror 2022, wedi'u nodi dan y meysydd canlynol:

- Adnoddau Dynol
- Y Sefyllfa Ariannol 1 Ebrill tan 31 Rhagfyr 2021 – Atodiad 1
- Monitro Perfformiad – Atodiad 2
- Diweddariad Gwasanaeth – Gwaith sy'n gysylltiedig â Covid-19 gan gynnwys (mae ffeithlun yn
- Atodiad 3)
- Profi, Orlhain, Diogelu
- Safonau Masnach – Effeithiau a Chanlyniadau
- Trwyddedu Tacsis
- Ansawdd Aer
- Lles Anifeiliaid
- Gweithgarwch Gorfodi – Atodiad 5

Holodd y Cynghorydd D. Patel a oedd unrhyw ddulliau recriwtio creadigol wedi'u hystyried, megis denu myfyrwyr. Mewn ymateb, dywedodd Pennaeth y Gwasanaeth mai tuedd ddiddorol sy'n cael ei gweld yn awr oedd bod y GRhR wedi colli rhai pobl a oedd wedi gadael i weithio yn yr awdurdod lleol yr oeddent yn byw ynddo. O ran y myfyrwyr hynny a oedd wedi ymuno â'r GRhR yn 2021, roedd nifer ohonynt bellach yn aelodau parhaol o staff, a byddai nifer ohonynt yn gorffen eu hastudiaethau ym mis Mehefin a'r gobaith oedd y byddai'r GRhR yn gallu eu denu i'r gwasanaeth. Ychwanegodd Pennaeth y Gwasanaeth fod gwybodaeth am y camau a roddwyd ar waith i recriwtio staff yn cael ei llunio, er enghraifft defnyddio asiantaethau recriwtio arbenigol, ond roedd recriwtio staff gyda'r hyfforddiant angenrheidiol yn her ledled y Deyrnas Unedig gyfan.

O ran defnyddio staff yr Asiantaeth i gynnal arolygiadau hylendid bwyd, dywedodd y Rheolwr Gweithredol fod y defnydd o staff Asiantaeth gan bob awdurdod lleol wedi cynyddu dros y ddwy flynedd ddiwethaf, a oedd wedi golygu bod y costau a'r gyfradd gyflogau wedi cynyddu hefyd. Er mwyn sicrhau bod ansawdd yr arolygiadau'n cael ei gynnal, roedd hyn wedi golygu bod y GRhR wedi symud i ffwrdd o dalu fesul awr i dalu am bob arolygiad.

No.

Yna cafwyd trafodaeth ynglŷn ag oedran tacsis a cherbydau hacni yn y 3 ardal awdurdod lleol, a nodwyd bod gweithredwyr masnachol yn cynnal profion ar gerbydau yng Nghaerdydd, tra bo cyfundrefnau profi mewnol wedi'u mabwysiadu ym Mhen-y-bont ar Ogwr a Bro Morgannwg. Roedd hyn yn ymddangos yn fwy cadarn gan ei fod yn cynnig mwy o reolaeth. Dywedodd aelodau'r Pwyllgor fod proffil oedran cerbydau yn rhywbeth yr oedd angen edrych arno.

Cynigiodd Aelodau'r Pwyllgor eu diolch a'u gwerthfawrogiad i holl staff y GRhR am eu gwaith a'u hymrwymiad wrth ateb y gofynion a gododd yn sgil pandemig Covid-19.

Gan nad oedd unrhyw sylwadau nac ymholiadau pellach, nododd y Cydbwyllgor fod

PENDERFYNWYD – Cytuno ar gynnwys yr adroddiad.

Rheswm dros y penderfyniad

Gyda golwg ar gynnwys yr adroddiad a thrafodaethau yn y cyfarfod.

(e) Adeiladu i'r Dyfodol – Adroddiad gan Gwarchod y Cyhoedd Cymru (CAT) -

Cyflwynodd yr adroddiad bapur gan grŵp Cyfarwyddwyr Diogelu'r Cyhoedd Cymru(CDCC), oedd yn rhoi manylion am heriau cydnerthedd i wasanaethau rheoleiddio/diogelu'r cyhoedd awdurdodau lleol, ac yn cyflwyno achos i Lywodraeth Cymru am fwy o fuddsoddiad yn y tymor canolig.

Wedi ystyried yr adroddiad,

PENDERFYNWYD – Cytuno ar gynnwys yr adroddiad.

Rheswm dros y penderfyniad

Gyda golwg ar gynnwys yr adroddiad a thrafodaethau yn y cyfarfod.